WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad er budd y cyhoedd – methiannau o ran trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu – **Cyngor Cymuned Chwitffordd**

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 548A2018-19

Mae'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd wedi ei baratoi yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw berson arall yn unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Ian Hughes a gyflawnodd y gwaith, o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at annigonolrwydd o ran llywodraethu a rheoli ariannol yng Nghyngor Cymuned Chwitffordd.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Canfyddiadau manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith, gan ddibynnu yn lle hynny ar ymddiried yn y Clerc blaenorol 7

Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers llawer o flynyddoedd 7

Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a TWE, gan gynnwys talu Treth Incwm y Clerc blaenorol i CThEM 11

Mae'r Cyngor wedi colli incwm oherwydd ei fethiant i adennill TAW ar daliadau cymwys 14

Nid yw'r Cyngor wedi cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer archwilio mewnol 15

Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i'r afael â'r gwendidau llywodraethu y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn 19

Argymhellion 20

Y camau nesaf 20

Atodiadau

Atodiad 1 – pryderon a godwyd gan archwiliad allanol ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a 2014. 22

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at annigonolrwydd o ran mewn llywodraethu a rheoli ariannol yng Nghyngor Cymuned Chwitffordd. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

2 Rwyf hefyd yn credu ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau mewn trefniadau llywodraethu o'r fath yn digwydd eto yn cael ei lleihau gymaint â phosibl. Mae gwersi i'w dysgu gan y Cyngor, a hefyd gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

3 Lleolir y Cyngor yn Sir y Fflint ac mae'n gwasanaethu tua 2,300 o drigolion. Mae gan y Cyngor ddeuddeg aelod etholedig ac mae'n gwario tua £48,000 y flwyddyn ar wasanaethau lleol. Mae'n ariannu hyn drwy gyfrwng praesept o tua £45,000 gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept drwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid Cyngor Cymuned Chwitffordd o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau ei ethol gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.

4 Ym mis Ebrill 2017, penododd y Cyngor Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd[1], sef Mr Phillip Parry (y cyfeirir ato fel 'y Clerc newydd'). Cymerodd y Clerc newydd yr awenau gan y Clerc a oedd yn gadael, sef Mr Arwel Owen (y cyfeirir ato fel 'y Clerc blaenorol').

5 Yn fuan ar ôl dechrau yn ei rôl newydd fel Clerc i Gyngor Cymuned Chwitffordd, cysylltodd Mr Parry â'm cyflenwr archwilio, BDO[2], i godi nifer o bryderon ynglŷn â threfniadau llywodraethu a rheoli ariannol y Cyngor.  Roedd y pryderon hyn yn cynnwys anfodlonrwydd â'r canlynol:

- y ffordd y gwnaeth y Clerc blaenorol drosglwyddo cofnodion ac asedau'r Cyngor;
- y diffyg trefniadau a oedd ar waith i weinyddu'r gyflogres a Thalu Wrth Ennill (TWE); ac
- arian a gollodd y Cyngor am iddo fethu ag adennill TAW gan Gyllid a Thollau EM (CThEM).

[1] Er bod y rhain yn ddwy rôl ar wahân, cyfeirir atynt yn syml fel Clerc at ddiben yr adroddiad hwn.

[2] Yn dilyn ymarfer aildendro, enillodd cyflenwyr archwilio newydd gontractau i ddarparu gwasanaethau archwilio allanol ar fy rhan i gynghorau cymuned o 2015-16 ymlaen. Yn achos Cyngor Cymuned Chwitffordd dyfarnwyd y contract i'r cwmni cyfrifyddu preifat, BDO.

6 Tynnwyd fy sylw at y pryderon hyn a dechreuais gynnal archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar unwaith gan gydweithio’n agos â’n cyflenwr archwilio, BDO.

7 Mae canfyddiadau fy archwiliad yn dangos annigonolrwydd hirsefydlog o ran llywodraethu a rheoli ariannol yn y Cyngor a chânt eu crynhoi isod. Cânt eu hystyried yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

## Canfyddiadau allweddol

8 Mae’r Cyngor wedi methu â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith, gan ddibynnu yn lle hynny ar ymddiried yn y Clerc blaenorol.

9 Nid yw’r Cyngor wedi cydymffurfio â’r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers llawer o flynyddoedd. Dengys y dystiolaeth fod anallu’r Clerc blaenorol i gyflwyno cyfrifon ar amser yn ffactor arwyddocaol yn hanes gwael y Cyngor o ran bodloni’r terfynau amser a bennwyd o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a 2014.

10 Ni chyflwynodd y Clerc blaenorol gyfrif cyflawn na mantoledig o’i berfformiad i’r cyngor er mwyn cydymffurfio â’r terfynau amser hyn; nid ymatebodd i sawl cais gan yr Archwilydd Allanol i ddarparu enw a manylion cyswllt y Cadeirydd fel y gallai uwchgyfeirio ei bryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth â gofynion statudol.

11 Mewn perthynas â’r gyflogres a TWE, rwyf wedi dod i’r casgliadau canlynol:

- nid yw’r Cyngor wedi cadw cofnodion cyflogres priodol fel sy’n ofynnol;
- nid oedd trefniadau priodol ar waith i weithredu TWE fel y disgwylir gan CThEM;
- rhoddodd y Clerc blaenorol ffug sicrwydd i’r Cyngor ynglŷn â’r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer y gyflogres a TWE;
- gwnaeth y Clerc blaenorol drefniadau preifat gyda Swyddfa Gyflogres ar gyfer 2016-17 a chofrestrodd y Cyngor â CThEM ym mis Mawrth 2017; ond
- ar adeg dechrau’r archwiliad hwn (mis Awst 2017), nid oedd y Clerc blaenorol wedi talu unrhyw gyfraniadau treth nac yswiriant gwladol i CThEM mewn perthynas â’r cyfnod hwn o gyflogaeth â’r Cyngor rhwng 2008 a 2015.

12 Mae’r Cyngor wedi colli incwm oherwydd ei fethiant i adennill TAW ar daliadau cymwys. Er bod y Clerc blaenorol wedi cyflwyno copïau o ddau hawliad diweddar am ad-daliad TAW, nid oes gan CThEM unrhyw gofnod o’u derbyn. At hynny, mae’r hawliadau hyn yn anghyflawn am nad ydynt yn cynnwys pob taliad sy’n gymwys ar gyfer adennill TAW.

13 Mae archwiliad o anfonebau a dalwyd wedi tynnu sylw at ddiffygion pellach o ran y ffordd y mae’r Clerc blaenorol wedi gwarchod arian y Cyngor. Gwnaed taliadau annigonol i gyflenwr trydan y Cyngor, gan arwain at ôl-ddyledion sylweddol yn y cyfrif. O ganlyniad i oedi yn y broses o setlo’r cyfrifon am wasanaethau a ddarparwyd gan yr awdurdod unedol, anfonwyd llythyrau at y Cyngor Cymuned yn rhybuddio y byddai camau cyfreithiol yn cael eu cymryd.

14 Yn fuan ar ôl dechrau yn ei swydd ym mis Hydref 2008, gwnaeth y Clerc blaenorol drefniadau drwy'r Cyngor i benodi Archwilydd Mewnol newydd gan nodi mai gwrthdaro buddiannau â'r Archwilydd Mewnol blaenorol oedd y rheswm dros y newid. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod achos i'r Cyngor wneud y penodiad newydd hwn ac y dylai'r Cyngor fod wedi herio'r Clerc blaenorol yn fwy cadarn am y newid hwn.

15 Methodd adroddiadau blynyddol yr Archwilydd Mewnol â thynnu sylw'r Cyngor at ddiffygion o ran ei drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol. Prin oedd y papurau gwaith a gadwodd yr Archwilydd Mewnol fel tystiolaeth o'r gwaith a wnaed. Ar y gorau, dengys y dystiolaeth fod yr Archwilydd Mewnol yn rhy barod i dderbyn y sicrwydd a roddwyd gan y Clerc blaenorol, a'i fod wedi methu ag arfer digon o amheuaeth broffesiynol drwy brofi sicrwydd y Clerc yn erbyn cofnodion sylfaenol y Cyngor.

16 Mae'r Cyngor bellach wedi rhoi sawl newid ar waith sy'n mynd i'r afael â'r gwendidau a'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- trefnu cyfarfod blynyddol cylchol o'r Cyngor i ystyried yn llawn y Ffurflen Flynyddol i'w chyflwyno i'r Archwilydd Allanol;
- cofrestru'r Cyngor fel cyflogwr â CThEM a sicrhau y rhoddir cyfrif am rwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol yn briodol ac y cânt eu talu'n llawn;
- cydgysylltu â CThEM i weld pa TAW y gellir ei hadennill o dan yr amgylchiadau;
- bwrw golwg dros ymrwymiadau ariannol y Cyngor i gontractwyr a chyflenwyr sydd i'w talu o hyd, a sicrhau bod yr holl daliadau diweddaraf wedi'u gwneud; a
- phenodi Archwilydd Mewnol newydd gyda chylch gorchwyl a threfniadau goruchwylio priodol.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi methu â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith, gan ddibynnu yn lle hynny ar ymddiried yn y Clerc blaenorol

17 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014[3] (y Rheoliadau) yn darparu mewn perthynas â chyfrifon ac archwilio cyrff y mae'n ofynnol i'w cyfrifon gael eu harchwilio yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf).

18 Mae'r Rheoliadau yn dynodi'n glir bod y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau a rhoi system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy'n cynnwys trefniadau rheoli ariannol digonol ac effeithiol (Rheoliad 4 2005 a Rheoliad 5 2014). Mae'r system rheolaeth fewnol hon yn cynnwys archwilio mewnol digonol ac effeithiol (Rheoliad 2005 6 a Rheoliad 2014 7).

19 Mae'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos bod y trefniadau rheoli ariannol a roddwyd ar waith gan y Cyngor yn wan drwy gydol y cyfnod adolygu. Yn benodol, methodd y Cyngor â herio gwybodaeth a honiadau anghyson a wnaed gan y Clerc blaenorol, gan ddibynnu yn lle hynny ar ymddiried ynddo i weinyddu materion y cyngor.

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers llawer o flynyddoedd

20 Nodir y gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio Cynghorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014[4] ac fe'u hategir gan ganllawiau a nodir mewn canllaw i ymarferwyr[5] .

21 Mae Rheoliad 15 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- mae'n rhaid i Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyngor baratoi ac ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio i hynny drwy lofnodi a dyddio'r datganiadau cyfrifyddu. Darperir ar gyfer llofnodi a dyddio mewn datganiad blynyddol.

[3] A Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn flaenorol.

[4] A Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn flaenorol.


[5] Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i'r ymarferwyr (2011).

- mae’n rhaid i gyfarfod yr aelodau ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, gymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu i’w cyflwyno i’r archwilydd drwy benderfyniad gan y cyngor; ac ar ôl eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu’n cael eu llofnodi a’u dyddio gan y person sy’n cadeirio’r cyfarfod lle y rhoddwyd y gymeradwyaeth honno; ac
- mae’n rhaid i’r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

22 O dan Reoliad 15(2), cyn gynted â phosibl ar ôl i’r Cyngor gymeradwyo’r Ffurflen Flynyddol, rhaid ei hanfon at yr Archwilydd Allanol y mae’n rhaid iddo, yn ei dro, gwblhau’r archwiliad erbyn 30 Medi fan bellaf er mwyn galluogi’r Cyngor i gyhoeddi ei gyfrifon archwiliedig fel sy’n ofynnol gan y Rheoliadau. Crynhoir y broses yn Arddangosyn 1 isod:

## Arddangosyn 1: y cyfrifon a’r broses archwilio

Mae’r cyfrifon a’r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.




23 Yn fy adroddiad blynyddol ar Reoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Lleol ar gyfer 2015-16, adroddais fod mwy na 50 o gynghorau (8%) yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â’r amserlen statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu. Mae Cyngor Cymuned Chwitffordd yn un o’r rhain.

24 Bob blwyddyn ers 2009-10, mae archwilwyr allanol y Cyngor wedi codi pryderon â’r Cyngor ynglŷn ag amseroldeb y broses o gymeradwyo cyfrifon a’u cyflwyno i’w harchwilio. Dengys y dystiolaeth rwyf wedi’i gweld fod anallu’r Clerc blaenorol i gyflwyno cyfrifon ar amser yn ffactor arwyddocaol ym mherfformiad annerbyniol y Cyngor o ran bodloni’r terfynau amser statudol o dan y broses cyfrifon ac archwilio.

25 Yn seiliedig ar adolygiad o gofnodion y Cyngor a thrafodaethau â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd presennol, mae gennyf hefyd bryderon na wnaeth y Clerc blaenorol gyflwyno cyfrif cyflawn na mantoledig i'r Cyngor o'i berfformiad. Nid ymatebodd i sawl cais gan yr Archwilydd Allanol am enw a manylion cyswllt y Cadeirydd fel y gallai'r Archwilydd Allanol uwchgyfeirio pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth â gofynion statudol. O dan yr amgylchiadau, byddwn wedi disgwyl i'r Archwilydd Allanol fynd dros ben y Clerc a rhoi gwybod i aelodau'r Cyngor yn uniongyrchol am ei bryderon, a chaf ar ddeall mai dyna pam y gwnaeth yr archwilwyr nifer o ymholiadau.

26 Yn Atodiad 1, rwyf wedi crynhoi'r materion sy'n ymwneud ag amseroldeb a godwyd gan Archwilydd Allanol y Cyngor, UHY Hacker Young, gyda'r Cyngor, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2009-10 i 2014-15.

27 Cynhaliwyd yr archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2015-16 gan gyflenwr archwilio newydd, sef BDO. Hefyd, roedd ei farn archwilio yn amodol am fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio mewn perthynas â chymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol.

28 Fel y nodir yn Arddangosyn 1, mae bellach yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo ei Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Cafodd Ffurflen Flynyddol 2015-16 ei llofnodi gan y Cadeirydd a'i dyddio 30 Mehefin 2016. Y cyfeirnod cofnodion a nodwyd gan y Clerc sy'n dangos bod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo yw 137.2/16. Heb graffu pellach, mae'r Ffurflen Flynyddol yn dangos cydymffurfiaeth â'r terfyn amser ar gyfer cymeradwyo, sef 30 Mehefin, am ei bod wedi cael ei llofnodi gan y Cadeirydd ar y dyddiad hwn ac am fod cyfeirnod cofnodion wedi'i roi ar gyfer penderfyniad y Cyngor.

29 Fodd bynnag, mae gwaith craffu pellach yn datgelu'r anghysondebau sylweddol canlynol:

- Yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 16 Mehefin, dywedodd y Clerc wrth yr aelodau na fyddai'n trafod yr eitemau ariannol ar yr agenda am ei fod wedi anfon y Ffurflen Flynyddol at yr Archwilydd Allanol i'w hystyried ac y byddai'r eitemau hyn yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf (cyfeirnod cofnodion 137.2/16).
- Bu'n rhaid aros tan gyfarfod nesaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2016 i'r Ffurflen Flynyddol gael ei chymeradwyo (cyfeirnod cofnodion 157/16).
- Os yw cofnod 137.2/16 yn gywir, ni fyddai wedi gwneud unrhyw synnwyr i'r Clerc anfon y Ffurflen Flynyddol ymlaen i BDO cyn iddi gael ei llofnodi gan y Cadeirydd neu cyn i'r adroddiad ar yr archwiliad mewnol a'r dystysgrif gael eu cwblhau (mae'r ddau yn ddyddiedig 30 Mehefin). Fel y cyfryw, ni fyddai ei chyflwyno i'r archwilydd yn bodloni gofynion y Rheoliadau.

30 Ceir anghysondebau pellach o ran y ffordd y cafodd Ffurflen Flynyddol 2016-17 ei chyflwyno, ac fe'u hystyrir isod.

31 Ymddiswyddodd y Clerc blaenorol o'i rôl fel Clerc y Cyngor ym mis Ebrill 2017. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai wedi bod yn anodd iawn cwblhau'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 yn llawn[6]. Fodd bynnag, byddwn wedi disgwyl i'r Clerc blaenorol fod wedi cadw cofnodion y Cyngor yn gyfredol a darparu set gyflawn o gofnodion i'r Clerc newydd. Wedyn, byddai'r Clerc newydd wedi gallu cwblhau'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2016-17 a threfnu iddi gael ei chymeradwyo gan y Cyngor cyn 30 Mehefin 2017.

32 Fodd bynnag, parhaodd y Clerc blaenorol â'r gwaith o gwblhau'r Ffurflen Flynyddol, gan gynnwys hwyluso adroddiad yr Archwilydd Mewnol er nad ef oedd Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor mwyach. Unwaith eto, golygodd hyn bod y Cyngor wedi methu â bodloni gofynion y Rheoliadau. Nodir y rhesymau dros y methiant hwn isod.

33 Caf ar ddeall nad oedd modd i'r Clerc blaenorol fod yn bresennol yn ei gyfarfod olaf â'r Cyngor, a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2017, oherwydd ymrwymiadau eraill. Fodd bynnag, roedd y Clerc newydd yn bresennol yn y cyfarfod. Rhoddodd y Clerc blaenorol gopi o gyfrifon blynyddol y Cyngor a datganiad cysoniad banc i'r Cyngor. Yn y cyfarfod, penderfynodd y Cyngor dderbyn y cyfrifon ac y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc blaenorol yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol, a dyna a wnaed wedi hynny. Fodd bynnag, o ystyried nad oedd y Clerc blaenorol yn ei swydd mwyach ac, felly, nad ef oedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, ni chredaf ei bod yn briodol iddo lofnodi'r Ffurflen Flynyddol am nad oedd hyn yn bodloni gofynion y Rheoliadau.

34 Ar 3 Awst 2017, anfonodd y Clerc blaenorol ddarn o Ffurflen Flynyddol 2016-17 drwy e-bost i BDO, a oedd ond yn cynnwys y datganiad o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â dogfen cysoniad banc ar gyfer 31 Mawrth 2017. Rhoddodd wybod i BDO ei fod yn y broses o drefnu bod y Ffurflen Flynyddol yn cael ei hail-lofnodi ac y byddai'n cael ei chyflwyno iddynt cyn bo hir. Nid oedd y Cyngor na'i Glerc newydd yn ymwybodol o'r ffaith bod y Clerc yn parhau i gyfathrebu â BDO ac nid oeddent yn disgwyl y byddai angen i'r Cyngor alw cyfarfod arall i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol.

35 Gan na chyflwynwyd Ffurflen Flynyddol gyflawn ar gyfer 2016-17 i'r Cyngor na BDO, gofynnodd fy staff archwilio am gopi gan y Clerc blaenorol ar 11 Medi 2017. Daeth copi i law ar 13 Medi. Mae'r copi hwn yn anarferol; mae'n gyfuniad o lungopi o ffurflen bapur sy'n ymgorffori copi o fersiwn electronig o adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Mae adroddiad yr Archwilydd Mewnol yn ddyddiedig 23 Mehefin 2017.

36 O ystyried bod y Clerc blaenorol wedi parhau i drefnu bod Ffurflen Flynyddol 2016-17 yn cael ei chwblhau a'i chyflwyno i BDO, rwy'n synnu:

- na roddodd wybod i'r Clerc newydd na'r Cyngor ei fod yn gwneud hynny;
- na roddodd gopi o adroddiad yr Archwilydd Mewnol i'r Cyngor na BDO er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio;

[6] I gynnwys trefnu adroddiad yr archwilydd mewnol.

- nad yw'r Cyngor, hyd yma, wedi cael anfoneb gan ei Archwilydd Mewnol am y gwaith yr honnir ei fod wedi'i gyflawni ym mis Mehefin 2017; ac
- nad oes papurau gwaith ar gael fel tystiolaeth o'r gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Mewnol.

37 Mae adrannau nesaf yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at achosion pellach lle y methodd y Clerc blaenorol â rhoi cyfrif llawn a chywir o'i weithredoedd i'r Cyngor, ynghyd â phryderon sydd gennyf ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer archwilio mewnol y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a TWE, gan gynnwys talu treth incwm y Clerc blaenorol i CThEM

38 Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned, megis Chwitffordd, yn cyflogi un swyddog i ymgymryd â rolau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, sy'n rolau ar wahân yn gyfreithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogion hyn yn gweithio'n rhan amser, gyda'u horiau yn amrywio o un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, i ychydig o oriau y chwarter mewn cysylltiad â chyfarfodydd y Cyngor.

39 Fel cyflogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i CThEM bob mis neu chwarter ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Gelwir y system hon yn Talu Wrth Ennill (TWE). Mae'n rhaid i ddidyniadau TWE gael eu talu i CThEM. Mae'n rhaid i bob cyflogwr hefyd gadw cofnodion cyflogres.

40 Yn seiliedig ar y dystiolaeth rwyf wedi'i gweld mewn perthynas â chyflogres a TWE yng Nghyngor Chwitffordd, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- ni chadwyd cofnodion cyflogres priodol fel sy'n ofynnol;
- nid oedd trefniadau priodol ar waith i weithredu TWE fel y disgwylir gan CThEM; ac
- rhoddodd y Clerc blaenorol ffug sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer y gyflogres a TWE.

41 Penodwyd y Clerc blaenorol fel Clerc y Cyngor ym mis Hydref 2008. Ei gyflog cychwynnol oedd £5,140. Hefyd, derbyniodd y Clerc £800 o lwfans gweinyddu a £400 o gostau teipio. Cyfanswm ei dâl trethadwy oedd £6,340 y flwyddyn.

42 I ddechrau, mae cyfrifon y Cyngor yn ategu honiad y Clerc blaenorol ei fod wedi mabwysiadu system gyflogres y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a hanner gyntaf ar ôl iddo gael ei benodi. Bob mis, cymeradwyodd y Cyngor siec i'w thalu i CThEM mewn perthynas â TWE y Clerc blaenorol. Fodd bynnag, dengys cysoniadau banc y Cyngor na chafodd y sieciau hyn eu cyflwyno erioed ac y cawsant eu hôl-gofnodi yng nghyfrifon y Cyngor.

43 Nodwyd y mater hwn gan yr Archwilydd Allanol ar y pryd, UHY Hacker Young, a roddodd wybod i'r Clerc blaenorol amdano gan argymell y dylid esbonio i CThEM pam na chafodd y sieciau eu cyflwyno. Dengys cofnodion y Cyngor fod y Clerc blaenorol wedi rhoi copi o adroddiad yr Archwilydd Allanol i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2010 ac wedi nodi bod y mater wedi cael ei ddatrys ers hynny[7]. Ni wnaeth y Cyngor ymholiadau pellach ynglŷn â'r anghysondeb, a derbyniodd sicrwydd y Clerc blaenorol bod trefn ar bopeth bellach.

44 Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd CThEM ganllawiau newydd ar ymdriniaeth dreth clercod cynghorau tref a chymuned. Mae CThEM wedi penderfynu na ellir trin clercod fel gweithwyr hunangyflogedig at ddibenion treth am fod clerc yn ddeiliad swydd. Hefyd, lle bo gan y clerc incwm arall, e.e. cyflogaeth arall neu bensiwn, golyga hyn y dylai ei enillion fod yn destun TWE.

45 Erbyn i CThEM gyhoeddi'r canllawiau newydd hyn, roedd y Clerc blaenorol wedi dod i gytundeb ar gynnydd mewn tâl o 28% (dros dair blynedd), i £8,150 y flwyddyn (gan gynnwys lwfans gweinyddu). Dywedodd y Clerc blaenorol wrth fy staff fod angen y cynnydd hwn er mwyn i'w gyflog fod yn gyson â'r symiau a delir i glercod eraill yn yr ardal sydd â chyfrifoldebau tebyg.

46 Ar ôl sicrhau codiad cyflog, methodd y Clerc blaenorol â thalu unrhyw dreth incwm ar ei enillion gan y Cyngor Cymuned i CThEM rhwng 2011 a 2016. Hefyd, newidiodd rai o'i sieciau cyflog yn y banc yn hytrach na'u talu i mewn i'w gyfrif banc.

47 Dywedodd y Clerc blaenorol wrth fy staff mai ei fwriad o'r dechrau oedd rhoi trefniadau cyflogres a TWE priodol ar waith. Er iddo honni bod ganddo'r bwriadau da hyn, ni chymerodd unrhyw gamau tan 2016-17 sef, fel mae'n digwydd, yr adeg y rhoddwyd mwy o bwyslais ar gyflogres a TWE yn nhrefniadau archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

48 Ar 31 Ionawr 2016, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad blynyddol ar Reoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned 2015-16. Roedd yr adroddiad yn rhybuddio Cynghorau Cymuned y byddai cyflogres a TWE yn cael eu harchwilio'n fanylach fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon 2016-17. Rhoddodd cyflenwr archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, BDO, wybod i glercod yn ystod gwanwyn 2017 pa wybodaeth roedd angen ei chyflwyno i ddangos bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogres a TWE.

49 Gofynnwyd i gyflenwr archwilio'r Archwilydd Cyffredinol geisio tystiolaeth o'r canlynol:

- mae'r cyngor wedi cofrestru â CThEM ac yn gweithredu TWE yn unol â'r gofynion. Gallai'r dystiolaeth hon fod ar ffurf ffurflenni i CThEM neu gadarnhad gan ddarparwyr cyflogres allanol;

[7] Ymdriniwyd â'r mater drwy ysgrifennu'r sieciau nas cyflwynwyd yn ôl i mewn i'r cyfrifon yn hytrach na mynd ar drywydd y mater gyda CThEM.

- os nad yw cynghorau wedi'u cofrestru, cadarnhad o'r rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi cofrestru; ac
- mae'r cyngor yn cadw cofnodion cyflogres priodol.

50 Ym mis Ionawr 2017, ymddiswyddodd aelod o'r Cyngor gan nodi pryderon ynglŷn â methiant y Clerc i roi cyfrif priodol am TWE fel un o'r rhesymau dros wneud hynny. Yn ei lythyr ymddiswyddo i'r Cyngor dyddiedig 21 Ionawr 2017, dywedodd y Cynghorydd:

> 'On the question of accounts we have no record over the last five years of Tax and NI deductions from the Clerk's salary, being an employee of the council, likewise the councils NI contribution. The council as an employer has a statutory responsibility for the collection of tax and NI contributions and to send such money to the HMRC. This should be clearly stated on the schedule of accounts. If tax and NI contributions are not to be collected by this council then it is important that HMRC should confirm this' (dim ond yn Saesneg y mae'r llythyr ar gael).

51 Cofrestrodd y Clerc blaenorol y Cyngor ar gyfer TWE â CThEM ym mis Mawrth 2017, yn fuan cyn iddo adael. Yn ystod yr un flwyddyn ariannol, roedd wedi ceisio adfer system gyflogres drwy ddefnyddio porth hunanasesu ar-lein a gynhelir gan CThEM a chael cymorth gan Swyddfa Gyflogres leol.

52 Ni chredaf mai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith bod y Clerc blaenorol wedi cymryd camau i gyflwyno trefniadau cyflogres a TWE yn ystod ei flwyddyn olaf yn y swydd, ar yr adeg pan oedd yr Archwilydd Allanol yn dymuno gweld tystiolaeth o'r trefniadau hyn, a phan oedd Cynghorydd a oedd wedi bod yn ei swydd ers blynyddoedd wedi codi pryderon ffurfiol â'r Cyngor.

53 Yr hyn sy'n peri mwy fyth o bryder yw bod y Clerc blaenorol, drwy gydol ei gyfnod yn y swydd, wedi rhoi sicrwydd a gofnodwyd i'r Cyngor bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogres a TWE.

54 Yn fuan ar ôl iddo gael ei benodi, paratôdd y Clerc blaenorol gyfres o reolaethau ariannol mewnol ar gyfer y Cyngor. Mae paragraff naw o'r Ddogfennaeth Rheolaethau Ariannol Mewnol yn nodi:

> 'The Responsible Financial Officer will ensure that salary payments due to the clerk are in accordance with the agreed scales by the Council and are subject to the appropriate deduction of income tax and NI, keep appropriate employment records and submit an annual return to HM Revenue and Customs by use of their online facility' (dim ond yn Saesneg y mae'r ddogfennaeth ar gael).

55 Gofynnodd y Clerc blaenorol i'r Cyngor gymeradwyo'r rheolaethau ariannol mewnol hyn yn flynyddol.

56 Yn seiliedig ar y dystiolaeth rwyf wedi'i gweld, roedd y sicrwydd a roddwyd i'r Cyngor gan ei Glerc blaenorol ynglŷn â gweithredu rheolaethau mewnol yn effeithiol yn anghyson â'i weithredoedd. Mae'n anodd gweld pa gamau pellach y gallai'r Cyngor fod wedi'u cymryd o dan yr amgylchiadau, yn enwedig gan na

gododd ei Archwilydd Mewnol unrhyw bryderon ynglŷn â gweithredu'r gyflogres a TWE. Ystyrir hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

## Mae'r Cyngor wedi colli incwm oherwydd ei fethiant i adennill TAW ar daliadau cymwys

57 Fel corff a gwmpesir gan Adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth 1994, gall y Cyngor adennill TAW a delir ar bryniannau. Er mwyn gwneud hynny, dylai'r Cyngor gael derbynebau ac anfonebau TAW priodol yn nodi manylion perthnasol y TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr.

58 Yn fuan ar ôl cael ei benodi ym mis Ebrill 2017, archwiliodd Clerc newydd y Cyngor y cyfrifon i weld pa TAW y gallai ei hadennill. Nododd na wnaed unrhyw hawliadau TAW yn ystod cyfnod y Clerc blaenorol yn ei swydd. Ysgrifennodd i CThEM i gadarnhau hyn, ac atebodd CThEM gan ddweud mai'r hawliad diwethaf a gafwyd gan y Cyngor oedd un ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005. Roedd CThEM wedi talu'r swm a hawliwyd, sef £1,535.20.

59 Mae'r hyn a ddywedodd y Clerc blaenorol yn wahanol. Yn 2013, ysgrifennodd y Clerc blaenorol lythyr at Archwilydd Allanol y Cyngor ar y pryd, UHY Hacker Young, yn ymateb i'r materion a godwyd ar ôl yr archwiliad o gyfrifon 2012-13. Sicrhaodd yr Archwilydd Allanol fod TAW yn cael ei hadennill yn barhaus. Nid ydym wedi canfod unrhyw dystiolaeth i ategu'r datganiad hwn a wnaed i'r archwilydd.

60 Codwyd y mater eto mewn llythyr fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon y flwyddyn ganlynol. Rhoddodd y Clerc blaenorol gopi o lythyr UHY Hacker Young i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2014. Mewn ymateb i'r eitem ynghylch peidio ag adennill TAW, rhoddodd y Clerc blaenorol sicrwydd i'r Cyngor y byddai'n adennill TAW yn flynyddol yn y dyfodol.

61 Ar yr wyneb, mae sicrwydd y Clerc blaenorol y byddai TAW yn cael ei hadennill yn flynyddol yn y dyfodol yn ymddangos yn gredadwy. Dywedodd y Clerc blaenorol wrth fy nhîm archwilio ei fod wedi cyflwyno dau hawliad am ad-daliad TAW rhwng 2014 a 2016. Cyflwynodd gopïau o'r ddau hawliad hyn:

- Hawliad TAW ar gyfer y cyfnod rhwng 10/2/2014 a 15/03/2016 am gyfanswm o £2,462.13 dyddiedig 19 Ebrill 2016; ac
- Hawliad TAW ar gyfer y cyfnod rhwng 15/04/2016 a 15/12/2016 am gyfanswm o £811.21 dyddiedig 23 Ionawr 2017

62 Fodd bynnag, mae'r Clerc newydd wedi cael gwybod gan CThEM nad oes cofnod bod CThEM wedi cael yr hawliadau hyn nac wedi'u setlo. Mae CThEM hefyd wedi nodi na fyddai'r hawliadau hyn wedi cael eu talu hyd yn oed petaent wedi dod i law oherwydd rhaid i'r cyfnod ddod i ben ar ddiwrnod olaf mis calendr.

63 Mae’r Clerc newydd wedi cymharu’r dogfennau adennill TAW â ffeil anfonebau’r Cyngor as wedi codi sawl pryder. Yn gyntaf, nid yw’r symiau a nodwyd ar gyfer taliadau misol i gyflenwr trydan y Cyngor yn cyd-fynd yn union â’r symiau a welir ar yr anfonebau a dalwyd, ac mae’r elfen TAW ar nifer o daliadau cymwys wedi cael eu hepgor o’r hawliadau.

64 Ar ôl archwilio ffeil y Cyngor o anfonebau a dalwyd, mae’r Clerc newydd wedi codi pryderon pellach ynglŷn â stiwardiaeth ariannol ei ragflaenydd. Ar adeg ei benodi, roedd y Cyngor mewn ôl-ddyledion (gwerth tua £2,400) o ran taliadau i Scottish Power am fod y Clerc blaenorol wedi methu â setlo’r symiau llawn a oedd yn ddyledus. Dangosodd archwiliad o gofnodion y Cyngor fod taliadau i Scottish Power wedi bod yn afreolaidd ac wedi’u rheoli’n wael gan y Clerc blaenorol.

65 Ym mis Mai 2011, trefnodd y Clerc blaenorol i’r Cyngor gymeradwyo chwe siec am gyfanswm o £4,506.70 i Scottish Power i glirio gwerth dwy flynedd o daliadau ynni heb eu talu. Drwy wneud hynny, sicrhaodd y Clerc bod yr holl daliadau diweddaraf wedi’u gwneud ar gyfer ei gyfrif â’r cyflenwr ynni. Ei esboniad am y ffaith bod ôl-ddyledion wedi cronni oedd bod y cwmni ynni wedi methu ag anfon anfonebau am y cyfleustodau a ddarparwyd. Er iddo dalu’r ôl-ddyledion yn 2011, methodd y Clerc blaenorol â gwneud taliadau rheolaidd a chronnwyd ôl-ddyledion unwaith eto. Ni ddywedwyd wrth y Cyngor am hyn.

66 Mae Clerc newydd y Cyngor bellach wedi gwneud trefniadau drwy’r Cyngor i fantoli’r cyfrif gyda Scottish Power.

67 Hefyd, nododd y Clerc newydd, o edrych ar y cofnodion, fod hanes talu gwael rhwng y Cyngor a Chyngor Sir y Fflint i’r graddau bod yr awdurdod unedol wedi bygwth cymryd camau cyfreithiol i adennill symiau sy’n ddyledus. Unwaith eto, nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o hyn am nad oedd y Clerc blaenorol wedi dwyn y mater i’w sylw.

## Nid yw’r Cyngor wedi cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer archwilio mewnol

68 Roedd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned yng Nghymru roi system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith, ac mae Rheoliadau 2014 yn parhau â’r gofyniad hwn. Rôl gwaith archwilio mewnol yw archwilio meysydd allweddol o drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol y Cyngor a thynnu sylw at unrhyw ddiffygion perthnasol.

69 Yn fuan ar ôl dechrau yn ei swydd, gwnaeth y Clerc blaenorol drefniadau drwy’r Cyngor i benodi Archwilydd Mewnol newydd (Compacc, Complete Accountancy Services UK Ltd) gan nodi mai gwrthdaro buddiannau â’r Archwilydd Mewnol blaenorol oedd y rheswm dros y newid. Roedd yr Archwilydd Mewnol newydd hefyd ar ddeall mai dyma’r rheswm dros ei benodi ond credai hefyd fod y newid wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian i’r Cyngor. Dywedodd wrthyf hefyd, er nad oedd unrhyw gyfeillgarwch rhyngddo a’r Clerc blaenorol, eu bod yn gyn-gydweithwyr. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gofnodion y

Cyngor i gefnogi'r esboniadau a roddwyd gan y Clerc dros benodi Archwilydd Mewnol newydd, a chredaf y dylai'r Cyngor for wedi herio cyngor y Clerc blaenorol yn fwy cadarn.

70 Yn fy marn i, roedd trefniadau archwilio mewnol y Cyngor yn aneffeithiol. Mae adroddiadau blynyddol yr Archwilydd Mewnol wedi methu â thynnu sylw'r Cyngor at y diffygion sydd wedi bod yn amlwg i mi wrth gyflawni'r gwaith hwn.

71 Ar y gorau, dengys y dystiolaeth a nodir isod fod yr Archwilydd Mewnol yn rhy barod i dderbyn y sicrwydd anghywir a roddwyd gan y Clerc blaenorol, a'i fod wedi methu ag arfer digon o amheuaeth broffesiynol drwy brofi sicrwydd y Clerc yn erbyn cofnodion sylfaenol y Cyngor.

72 Mae'r Archwilydd Mewnol wedi dweud wrth fy staff ei fod wedi holi'r Clerc blaenorol yn rheolaidd am ei statws cyflogres a'i fod wedi cael ei sicrhau bod trefn ar ei ffurflenni treth a'u bod yn cydymffurfio â gofynion ei brif gyflogwr arall. Roedd o dan yr argraff fod treth y Clerc blaenorol yn cael ei didynnu drwy gyflogres ei brif gyflogwr arall (gweler yn ddiweddarach). Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr Archwilydd Mewnol wedi herio'r honiad hwn nac wedi codi unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd gan y Cyngor drefniadau cyflogres a TWE priodol.

73 Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth yr Archwilydd Mewnol gwblhau a llofnodi'r rhan berthnasol o'r Ffurflen Flynyddol sy'n cadarnhau bod trefniadau priodol ar waith. Mae'r sicrwydd cadarnhaol hwn yn anghyson â'r dystiolaeth rwyf wedi'i gweld fel y nodir uchod.

74 Ar ôl archwiliad mewnol 2015-16 rhoddwyd adroddiad i'r Cyngor a oedd yn cynnwys y sylwadau canlynol:

**'TWE**

The Clerk had a computer failure during the year and tried to restore his files where it was found that the latest backup of that time had not been successful and that the backup available to him was out of date.

The Clerk informed the Inland Revenue and a copy of the file submitted to them for their records.

This resulted in payments relating to 2015-16 not being paid until April 2016. The Clerk is paid gross and pays the tax liability from that amount. The Community Council has agreed that the payroll should be managed by a local accountant.

**VAT £2,462**

VAT claims have been submitted to HMRC for part of 2013/14, 2014-15 and 2015-16. These claims have not been paid and the Clerk is pursuing payment and has been unsuccessful to date. The Council has asked him to seek advice from a local Council.

Standing Order, Financial Control, Financial Regulations and Risk Assessment were carried out in council meeting convened for this purpose on 14 May 2015.

**Conclusion; the overall recording of records is satisfactory and compliant with the accounts and audit guidelines.' (Dim ond yn Saesneg y mae'r adroddiad ar gael).**

75 Ceir anghysondebau sy'n peri pryder rhwng y sylwadau uchod, yr hyn a ddywedodd y Clerc blaenorol wrth fy staff a'r hyn sydd i'w weld yn y dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael.

76 Dywedodd y Clerc blaenorol wrth fy archwilwyr ei fod wedi cysylltu â Swyddfa Gyflogres leol ym mis Chwefror 2017 i ofyn am gymorth i lunio cofnodion cyflogres ar gyfer 2016-17 a ffurflen TWE i CThEM. Cadarnhaodd y Clerc blaenorol wrth fy staff na fu unrhyw fethiant cyfrifiadurol; nid oedd wedi llwyddo i greu ffurflen TWE cyn 1 Ebrill 2016 am nad oedd y system hunanasesu yn hwyluso trafodion TWE ar gyfer blynyddoedd ôl-weithredol.

77 Mae datganiad yr Archwilydd Mewnol na chafodd taliadau sy'n gysylltiedig â 2015-16 eu gwneud tan fis Ebrill 2016 yn ffeithiol anghywir; nid oedd taliadau o'r fath wedi'u gwneud.

78 Yn olaf, mewn perthynas â sylwadau'r archwiliad mewnol ynghylch y gyflogres, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n cadarnhau'r datganiad bod y Cyngor wedi cytuno y dylai'r gyflogres gael ei rheoli gan gyfrifydd lleol. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg, fodd bynnag, yw mai gwraig yr Archwilydd Mewnol yw'r unigolyn o'r Swyddfa Gyflogres a oedd yn cynorthwyo'r Clerc blaenorol. Mae hefyd yn cael ei chyflogi gan Compacc, Complete Accountancy Services UK Ltd.

79 Mae'r Archwilydd Mewnol wedi dweud bod gan ei wraig dystysgrif ymarfer i ymgymryd â gwaith prosesu cyflogres a bod yr agwedd hon ar y busnes yn annibynnol ar y gweithgareddau a gyflawnir ganddi fel archwilydd mewnol i gynghorau lleol. Mae wedi dweud hefyd y cafodd gwaith y gyflogres ei gyflawni ar ôl i'r archwiliad mewnol gael ei gwblhau a bod dyletswyddau'r Archwilydd Mewnol a'r unigolyn sy'n gyfrifol am brosesu'r gyflogres wedi'u gwahanu'n briodol. Er mai dyna ei farn ef o bosibl, credaf fod gwrthdaro buddiannau clir ac y dylai'r Clerc blaenorol fod wedi dwyn hyn i sylw'r Cyngor.

80 Gan droi at y sylwadau ar TAW, rwyf wedi gweld tystiolaeth bod yr Archwilydd Mewnol, mewn adroddiad byr a baratowyd ar ddiwedd archwiliad 2010-11, wedi tynnu sylw at yr angen i adennill TAW.

81 Ni wnaeth yr Archwilydd Mewnol godi'r mater eto tan 2015-16. Yn yr archwiliad hwn, ar wahân i nodi'r sefyllfa a nodwyd gan y Clerc, ni wnaeth yr Archwilydd Mewnol unrhyw waith i gadarnhau cywirdeb yr honiadau nac i ganfod y rhesymau dros beidio â thalu drwy gyfeirio at unrhyw ohebiaeth roedd y Clerc yn honni ei fod wedi'i chael â CThEM. Ni wnaeth yr Archwilydd Mewnol dynnu sylw at unrhyw bryderon ynglŷn â thaliadau hwyr na lefelau sylweddol o ôl-ddyledion mewn perthynas â dau o brif gyflenwyr gwasanaethau'r Cyngor. Byddai'r rhain wedi bod yn amlwg o'r anfonebau roedd y Cyngor wedi'u cael.

82 Yn gynharach, nodais fod y Clerc blaenorol, er nad oedd wedi'i gyflogi gan y Cyngor mwyach, wedi parhau i reoli'r gwaith o gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2016-17 gan gynnwys trefnu i'r Archwilydd Mewnol gwblhau'r

archwiliad mewnol. Mae'r Adroddiad ar yr Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn olaf hon yn cynnwys y sylwadau canlynol ar y gyflogres:

'No work undertaken on PAYE as work undertaken by external audit as part of thematic review' (dim ond yn Saesneg y mae'r adroddiad hwn ar gael).

83 Mae'n ddiddorol nodi bod yr Archwilydd Mewnol, erbyn yr adeg hon, wedi penderfynu peidio â rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Cyngor ynglŷn â'i drefniadau cyflogres a TWE ac, yn hytrach, wedi cyfeirio'r mater i'r Archwilydd Allanol graffu arno.

84 Yn sgil yr anghysondebau a nodir uchod, gofynnais i'r Archwilydd Mewnol ddarparu copïau o'r dogfennau canlynol:

- ei hysbysiad ffurfiol o benodiad gan y Cyngor a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno;
- copïau o unrhyw adroddiad archwilio mewnol a ddarparwyd i'r Cyngor ar wahân i'r un y cyfeiriwyd ato uchod ar gyfer 2015-16; ac
- chopïau o bapurau gwaith sy'n ategu'r sicrwydd cadarnhaol a roddir yn flynyddol i'r Cyngor.

85 Mewn ymateb, dywedodd yr Archwilydd Mewnol nad oedd yn cadw llawer o gofnodion; ei arfer yw gwneud anodiadau ar ddogfennau'r Cyngor ei hun yn hytrach na chadw ei bapurau gwaith ei hun. Mae wedi cyflwyno rhai enghreifftiau o hyn. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi esbonio bod unrhyw ddogfennaeth arall y gall fod wedi'i pharatoi wedi'i storio ar gyfrifiadur desg. Yn ôl yr Archwilydd Mewnol, roedd aelod o'i deulu wedi datgymalu'r cyfrifiadur hwnnw'n ddiweddar heb yn wybod iddo ac wedi mynd â'r gyriant caled dramor fel rhan o fenter busnes. Llwyddodd yr Archwilydd Mewnol i adfer rhai dogfennau o gofion bach, ond nid yw'r rhain yn ategu'r sicrwydd cadarnhaol a roddwyd yn adrannau Archwilio Mewnol y Ffurflenni Blynyddol.

86 Cyfeiriais yn gynharach ym mharagraff 36 at y ffaith nad yw'r Cyngor, hyd yma, wedi cael anfoneb gan ei Archwilydd Mewnol am y gwaith yr honnir ei fod wedi'i gyflawni ym mis Mehefin 2017. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi dweud wrthyf fod y Clerc blaenorol wedi rhoi'r argraff iddo y byddai ei benodiad yn parhau ar gyfer cyfrifon 2016-17. Fodd bynnag, gan na chafodd y penderfyniad hwn ei drafod na'i gymeradwyo gan y Cyngor, mae o'r farn bod ei benodiad wedi dod i ben ac nid yw'n bwriadu cyflwyno anfoneb i'r Cyngor.

## Ers hynny, mae’r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i’r afael â’r gwendidau o ran llywodraethu y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn

87 Ar yr adeg pan ddechreuodd y Clerc newydd yn ei swydd fel Clerc i Gyngor Cymuned Chwitffordd ym mis Ebrill 2017, roedd gwendidau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu ac roedd y rheolaeth ariannol yn annigonol. Mae’r Clerc newydd wedi briffio’r Cyngor yn llawn ynghylch ei ganfyddiadau, ac mae’r Cyngor wedi myfyrio’n ofalus ar y digwyddiadau dan sylw.

88 Mae’n amlwg o’r dystiolaeth rwyf wedi’i gweld, ac o’r hyn y mae aelodau’r Cyngor wedi’i ddweud wrthyf, fod staff yn y Cyngor wedi ymddiried i raddau helaeth yn ei Glerc blaenorol ac wedi bod yn rhy barod i dderbyn ei sicrwydd llafar ac ysgrifenedig. Atgyfnerthwyd ei ymddiriedaeth a’i ffydd yn y Clerc blaenorol gan y ffaith ei fod yn gwybod ei fod hefyd wedi’i gyflogi gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ategir y farn hon hefyd gan Archwilydd Mewnol blaenorol y Cyngor, a ddywedodd wrthyf fod y Clerc blaenorol yn gallu dylanwadu ar y partïon perthnasol oherwydd ei statws a’i fod yn defnyddio’r ymddiriedaeth a’r uniondeb sy’n gysylltiedig â’i swydd er mantais iddo.

89 Fodd bynnag, mae’r sefyllfa yn yr achos hwn yn peri mwy o bryder am fod Archwilydd Mewnol newydd wedi cael ei benodi yn syth ar ôl penodiad y Clerc yn 2008, a hynny, hyd y gwelaf, heb unrhyw reswm dilys. Methodd yr Archwilydd Mewnol â chyflawni’r rôl y mae’n ofynnol iddo ei chyflawni ar ran y Cyngor, h.y. craffu’n annibynnol ar waith yr aelod allweddol o staff y Cyngor ac adrodd ar unrhyw anghysondeb heb ofn na ffafr.

90 Ers i’r Clerc newydd gael ei benodi, mae wedi mynd ati, ar y cyd â’r Cyngor, i roi nifer o newidiadau ar waith sy’n mynd i’r afael â’r gwendidau a’r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- trefnu cyfarfod blynyddol cylchol o’r Cyngor i ystyried yn llawn y Ffurflen Flynyddol i’w chyflwyno i’r Archwilydd Allanol;
- cofrestru’r Cyngor fel cyflogwr â CThEM a sicrhau y rhoddir cyfrif am rwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol yn briodol ac y cânt eu talu’n llawn;
- cydgysylltu â CThEM i weld pa TAW y gellir ei hadennill o dan yr amgylchiadau;
- bwrw golwg dros ymrwymiadau ariannol y Cyngor i gontractwyr a chyflenwyr sydd i’w talu o hyd, a sicrhau bod yr holl daliadau diweddaraf wedi’u gwneud; a
- phenodi Archwilydd Mewnol newydd.

91 O dan y gyfundrefn archwilio allanol bresennol y mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi’i rhoi ar waith ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, mae’r cyflenwr archwilio

allanol yn rhoi llawer o ffydd yn y datganiadau a wnaed gan y Cyngor, ei Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r Archwilydd Mewnol. Er bod hyn yn sicrhau archwiliad cytbwys a chosteffeithiol yn y rhan fwyaf o achosion, ceir achlysuron fel yr achos hwn lle mae'r sicrwydd a roddir yn anghyson â'r gwir sefyllfa a nodir yn y cofnodion sylfaenol.

92 O fis Ebrill 2017 ymlaen, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u gwahardd rhag dal swydd fel Clerc i gyngor cymuned. Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru y cyfyngiad hwn er mwyn diogelu annibyniaeth archwilio ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol ddod yn archwilydd i gynghorau cymuned (ar ôl i benodiadau cwmnïau archwilio ddod i ben) yn 2015. Y cyfyngiad hwn a arweiniodd at ymddiswyddiad y Clerc blaenorol.

# Argymhellion

Arddangosyn 2: mae fy argymhellion i'r Cyngor fel a ganlyn:

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylid adolygu penodiad yr Archwilydd Mewnol yn flynyddol a dylid cofnodi canlyniadau'r adolygiad hwn. |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo gylch gorchwyl wedi'i ddogfennu ar gyfer ei Archwilydd Mewnol. |
| A3 | Dylai'r Cyngor ystyried gwahodd yr Archwilydd Mewnol i'r cyfarfod blynyddol lle y caiff yr adroddiad archwilio mewnol ei drafod er mwyn hwyluso'r broses o gyfnewid barn yn agored ac yn onest. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael copi o adroddiad blynyddol a thystysgrif yr Archwilydd Allanol a'u bod yn cael eu hystyried yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Cyngor. |

# Y camau nesaf

94 Mae'n ofynnol i'r Cyngor yn awr, o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- p'un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- p'un a gaiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu derbyn; ac
- pha gamau gweithredu (os o gwbl) y bydd yn eu cymryd i ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

95 Yna, bydd angen i’r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw â mi cyn cyhoeddi ei ymateb.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

6 Medi 2018

# Atodiad 1

## Pryderon a godwyd gan y gwasanaeth archwilio allanol ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a 2014

Bob blwyddyn, mynegodd yr archwilydd penodedig, Hacker Young, bryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a 2014.

Arddangosyn 3: materion a godwyd gan yr archwilydd penodedig

| Blwyddyn Archwilio | Materion a godwyd gan yr archwilydd penodedig, Hacker Young |
|---|---|
| 2009-10 | Codwyd pryderon â'r Clerc ynglŷn â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol yn hwyr. Methodd y Clerc â rhoi enw na manylion cyswllt y Cadeirydd i'r archwilydd ond rhoddodd sicrwydd y byddai gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion archwilio. |
| 2010-11 | Codwyd pryderon â'r Clerc ynglŷn â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol yn hwyr. Methodd y Clerc â rhoi enw na manylion cyswllt y Cadeirydd i'r archwilydd yn unol â'r cais. |
| 2011-12 | Codwyd pryderon â'r Clerc ynglŷn â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol yn hwyr. |
| 2012-13 | Codwyd pryderon â'r Clerc ynglŷn â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol yn hwyr. Methodd y Clerc â rhoi enw na manylion cyswllt y Cadeirydd i'r archwilydd ond rhoddodd sicrwydd y byddai gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion archwilio. |
| 2013-14 | Rhoddodd yr archwilydd wybod i'r Clerc ei fod yn ystyried cyhoeddi Adroddiad er Budd y Cyhoedd yn nodi pryderon ynglŷn â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol yn hwyr. Hefyd, hysbysodd yr archwilydd y Clerc ei fod wedi methu â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol o fewn y terfyn amser statudol am bob un o'r pum mlynedd diwethaf. |
| 2014-15 | Roedd adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi'i ddyddio 28 Medi 2015 – dylai fod ar gael i'r Cyngor ei ystyried (o fewn y Ffurflen Flynyddol) cyn 30 Mehefin 2015. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru